Cyd-destun Cenedlaethol

Cefndir

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid llywodraeth leol yn credu y gall pawb drwy gydol eu hoes ddysgu a datblygu a gwireddu eu potensial yn llawn, dim ond iddynt gael y cymorth, yr anogaeth a'r amodau priodol ar gyfer dysgu.

Mae parhau i wella'r canlyniadau i ddysgwyr yng Nghymru'n dal yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* yn nodi'n glir ein bod yn awyddus i adeiladu ar wybodaeth gyfredol am yr hyn sy'n gwneud lleoliadau dysgu effeithiol er mwyn datblygu a gwella rhagor ar ein system addysg. Mae *Cymru'n Un*, y rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru, yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i roi addysg o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc Cymru ac i weithio gyda darparwyr addysg, ymarferwyr a rhieni i greu'r ysgolion gorau posibl ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn gofyn am ffyrdd arloesol o feddwl ac ymarfer ar bob lefel.

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw'r cyfrwng ar gyfer datblygu'r ymrwymiadau hyn, drwy alinio polisïau a'r ffordd y cânt eu gweithredu er mwyn sicrhau gwell canlyniadau.

Yr Angen am Well Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru'n cyflawni'n dda ac, ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2, mae eu cyflawniadau'n cymharu'n dda â chyflawniadau plant a phobl ifanc mewn gwledydd eraill. Mae canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 20062 yn gosod meincnod rhyngwladol ar gyfer perfformiad ein system ysgolion yng Nghymru. Mae canlyniadau PISA yn cadarnhau ein bod wedi gwneud cynnydd yn gyffredinol o ran cyflawniadau plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, o ran oed, gallu, rhyw ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ein plant a'n pobl ifanc, mae'r cynnydd hwn yn anghyson ac mae angen ei ddatblygu ymhellach.

Yn achosion ysgolion sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf, mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn dal i gyflawni'n dda. Ond, mae angen i ni wneud mwy i leihau'r gwahaniaethau mewn canlyniadau o fewn ysgolion (dyma le ceir y gwahaniaethau mwyaf), rhwng ysgolion, rhwng awdurdodau lleol a rhwng addysg gynradd ac uwchradd; a chodi lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol. Mae'r ffaith y gallwn nodi amrywiad sylweddol mewn perfformiad rhwng ysgolion y mae ganddynt blant a phobl ifanc o allu tebyg a chefndiroedd tebyg, yn dangos nad yw plant a phobl ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael yr un cyfle i gyflawni'u potensial.

Y Diben Moesol

Mae'r wybodaeth hon yn sail i ddiben moesol ein system addysg ac yn golygu y bydd yn rhaid i ni greu'r amodau sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau posibl i bob plentyn a pherson ifanc ddysgu, gwneud y gorau o'u potensial, ac elwa ohono. Mater o gyfiawnder cymdeithasol a thegwch yw hyn. Mae hefyd yn fater o gyfrifoldeb ar y cyd. Mae angen i fod yr un mor bryderus am gynnydd plant a phobl ifanc mewn lleoliadau eraill ag yr ydym am blant a phobl ifanc yn ein lleoliadau ein hunain.

Draft

Mae hyn yn golygu bod angen i benaethiaid tra effeithiol gael cyfleoedd i gefnogi ysgolion eraill a'u helpu i gefnogi ysgolion eraill i wella dysgu a lles ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws y system gyfan.

Fframwaith ar gyfer Gwella ac EffeithiolrwyddYn rhan o'r ymgyrch cyffredinol i wella ysgolion yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith hwn wedi cynnwys Llywodraeth y Cynulliad, partneriaid o awdurdodau lleol, penaethiaid, academyddion ac ystod o randdeiliaid cenedlaethol.

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (SEF) yn gosod gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ar gyfer gwella canlyniadau mewn dysgu a lles ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru. Mae'r SEF wedi'i seilio ar yr egwyddorion o weithio ar dair lefel a phwysigrwydd meddwl ar ffurf systemau.

- **Gweithio ar Dair Lefel**
  Dengys tystiolaeth fod diwygio addysgol yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei gynllunio a'i weithredu ar y cyd ac yn gydlynus drwy holl lefelau'r system: yn genedlaethol, yn lleol ac ar lefel y lleoliad dysgu unigol - proses o ddiwygio ar dair lefel. Bydd ymdrech ar dair lefel yn ein galluogi i fanteisio ar wybodaeth a phrofiad ymarferwyr addysgu ac arweinwyr; a defnyddio gallu awdurdodau lleol, Llywodraeth y Cynulliad ac ysgolion wrth gefnogi dysgu plant a phobl ifanc.

- **Meddwl ar Ffurf Systemau**
  Mae meddwl ar ffurf systemau er mwyn sicrhau diwygio ar dair lefel, sy'n cael ei argymell gan yr Athro Michael Fullan, yn gofyn am fath gwahanol o lif cyfathrebu a datblygiad polisi. Yn draddodiadol, mae ysgolion wedi gweithredu o fewn strwythur lle mae llywodraeth ganol wedi datblygu cyfarwyddiadau polisi, gydag awdurdodau lleol wedyn yn gyfrifol am eu trosglwyddo i ysgolion a'u monitro. Roedd model arolygu ac ariannu ar sail cydymffurfiaeth yn sicrhau bod ysgolion yn rhoi polisïau cenedlaethol ar waith, ond nid oedd yn galluogi ysgolion i gael perchenogaeth nac, o anghenraid, yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt fynd i'r afael ag amgylchiadau lleol.

  Mae angen arno ffocws ar bob lefel, a chyda phob sefydliad sy'n gweithio i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc fel dysgwyr, aros ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n alinio adnoddau i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cefnogi anghenion dysgwyr unigol. Mae'n argymell bod ysgolion yn gweithio mewn grwpiau clwstwr neu mewn teuluoedd o ysgolion. Yn bwysicach na dim, mae angen meithrin gallu ar bob lefel ac i gydweithio fod yn ffordd naturiol o weithredu i bobl ar bob lefel.

Draft

Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Cynlluniwyd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i ddod â'r rhaglenni gweithredu presennol sy'n ceisio gwella ysgolion at ei gilydd. Bydd yn adeiladu ar y gwaith y mae ysgolion yn ei wneud eisoes i reoli newid yn well, rhoi adnoddau ar waith ac ymateb i anghenion plant a phobl ifanc.
Ni chyflawnir gwelliant cynaliadwy drwy newid tameidiog. Sicrheir gwelliant gwirioneddol a pharhaol pan fydd yr elfennau sy'n cael eu hystyried yn hollbwysig ar gyfer sicrhau'r gwelliant a geisir yn cael sylw yr un pryd, ac yn y fath fodd fel eu bod yn cydategu ac yn cefnogi'i gilydd. Mae'r diagram canlynol yn amlinellu meysydd gweithgarwch cyd-ddibynnol y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau gwelliant i blant ac ysgolion mewn ysgolion a thrwyddynt.

Mae i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion bum "thema" yn y cylch allanol, chwe "elfen" yn segmentau'r cylch, y mae pob un o'r rhain wedi'i hisrannu ymhellach yn dair neu bedair "agwedd".

Mae'r Fframwaith yn berthnasol i ysgolion: ar draws lefelau dosbarth ac ysgol gyfan, awdurdod lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, rhaid i bob lefel gydweithio a chysoni'u hymdrechion o fewn yr un fframwaith. Ar gyfer yr holl lefelau, mae angen 'cadw golwg' clir ar y canlyniad a ddymunir sef gwella dysgu a lles dysgwyr .

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn gofyn bod cymunedau dysgu proffesiynol yn cael eu datblygu ar lefel ysgolion, awdurdodau lleol a chenedlaethol er mwyn meithrin gallu i gydweithio a chynnwys arweinyddion ac ymarferwyr ar bob lefel mewn trafodaeth a dysgu proffesiynol ystyrlon.

Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion
Fel rhan o'r Fframwaith, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid wedi datblygu datganiad o ddiben cenedlaethol ar gyfer ysgolion. Mae'n disgrifio diben ysgolion fel a ganlyn:

- Galluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu'u potensial yn llawn drwy ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion sy'n weithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol, ac yn ddysgwyr gydol oes;

- Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, yn arbennig drwy ddatblygu lles dysgwyr a theilwra'r dysgu i'r unigolyn;

- Sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol cadarn mewn ysgolion lle gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu;

- Cynnig i blant a phobl ifanc gwricwlwm sy'n eu cynnwys ac yn eu hysgogi i ddysgu ac i wireddu eu potensial;

- Darparu cymuned ddysgu ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â bywyd ysgol, gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn y canol, ac yn cynnwys llywodraethwyr, athrawon, staff arall yn yr ysgol, ac oedolion sy'n hyfforddi i weithio mewn ysgolion;

- Bod yn chwaraewr allweddol gydag ysgolion eraill a darparwyr gwasanaethau partner wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant a phobl ifanc er mwyn gwella'u lles; a

- Darparu neu hwyluso addysg fel bod ysgolion yn cyfrannu at ddiwallu anghenion y gymuned ac yn cynnwys y gymuned fel partneriaid er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn canolbwyntio ar y gymuned.

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn ceisio dwyn ynghyd y gwahanol raglenni sy'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ysgolion wrth geisio cyflawni'r diben cenedlaethol. Mae'n cyfrannu at gyflawni'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddatblygu gwasanaethau integredig drwy eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Ymhen amser, bwriedir i'r Fframwaith sefyll ochr yn ochr â fframweithiau tebyg ar gyfer lleoliadau addysg eraill.

Y Cyfnod Peilot

Mae datblygu rhaglen ar lefel ysgolion yn ganolog i weithredu'r Fframwaith. O fis Medi 2008 hyd at fis Awst 2009, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn peilota rhaglen lefel ysgolion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ym mhob un o gonsortia'r awdurdodau lleol. I brofi sut y gellir gwneud hyn ac a yw cyfryngau cyflwyno gwahanol yn briodol mewn amgylchiadau gwahanol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gydag awdurdodau i dreialu dau ddull gweithredu.

Draft

Y Dulliau Gweithredu

Bydd y dull cyntaf yn cynnwys penodi pennaeth neu swyddog proffesiynol gwella ysgolion profiadol a llwyddiannus fel 'swyddog cyswllt' i weithio gyda'r ysgolion mewn rôl ddatblygol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn talu am ryddhau'r swyddogion cyswllt am 25% o'u hamser i weithio ar effeithiolrwydd ysgolion. Bydd yr ail ddull yn golygu gwahodd y consortia i ddatblygu eu rhaglen eu hunain ar gyfer gweithredu'r Fframwaith yn yr ysgolion peilot. Caiff yr ymagwedd gyntaf ei pheilota yng Nghonsortiwm De Ddwyrain Cymru ac yng Nghonsortiwm Gogledd Cymru, tra bod yr ail ymagwedd yn cael ei pheilota yng Nghonsortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru a Chonsortiwm Canol De Cymru.

Canlyniadau

Bydd angen i bob peilot nodi'r gwelliannau a geisir a'r mesurau perfformiad i'w defnyddio i werthuso effeithiolrwydd. Bydd rhaglen ymchwil yn olrhain y cynnydd a'r gwelliannau a wneir wrth weithredu'r cyfnod peilot. Disgwylir y bydd gwelliannau yn dechrau dod i'r amlwg mewn ysgolion o fewn blwyddyn, yn arbennig ym meysydd diwygio systemau, gwella atebolrwydd a gwasanaethau cydlynus. Dylai hyn arwain at weld gwelliannau'n sydyn mewn dysgu a lles.

Gwerthuso

Ar ddiwedd y cyfnod peilot bydd Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu, ar sail profiadau o'r cam peilot a'i werthusiad, ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i bob ysgol dros gyfnod dair i bum mlynedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a ddylid mabwysiadu defnyddio swyddogion cyswllt ledled Cymru neu ganiatáu defnyddio sawl dull amrywiol sy'n gweddu i amgylchiadau lleol.

Detholiadau o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2008
Gellir darllen y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion cyflawn yn www.sefwales.co.uk

Draft